Cofnodion cyfarfod 5 Rhagfyr 2023 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa am 6.30 yn yr hwyr		
PRESENNOL		
Eifion Williams	Elenid Glyn	
Llŷr Evans	Emyr Gareth	
Eleri Wyn Thomas	Dafydd Huws	
Meleri Jones	Daniel Williams	
Elen Gwenllïan	Cynghorydd Sir Iwan Huws	
Cynog Prys		
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd y cyfarfod yn ffurfiol gan y Cadeirydd Eifion Williams. Ni chafwyd ymddiheuriad.	
1.1	Ni chafwyd cyfraniad oddi wrth y cyhoedd.	
1.2	Ystyriaeth i ymateb Menter Felinheli i gwestiynau'r Cyngor Cymuned: Derbyniwyd yr ymatebion ysgrifenedig a phenderfynwyd bod cefnogaeth i'r fenter.	**CLERC**
1.3	Er bod y Cyngor wedi datgan cefnogaeth i Menter Felinheli roedd sut i gefnogi'n ariannol yn anodd. Dywedodd y Clerc bod modd i'r Cyngor ariannu drwy Adran 137. Y pwynt lle oedd diffyg penderfyniad oedd faint a hefyd oedd y Cyngor fel corff eisiau bod yn berchennog a'r rhandaliadau. Wedi trafodaeth hir phenderfynwyd annog Menter Felinheli i wneud cais am gymorth ariannol o dan adran 137 a bod yr aelodau yn datgan pa opsiwn yr oeddynt yn ei gefnogi o'r isod: Opsiwn A i. CC yn gefnogol o'r syniad o brynu asedau lleol ii. Cefnogol o Menter Felinheli ac yn fodlon i anfon llythyr ffurfiol o gefnogaeth i'r fenter. iii. Ffafriol o roi arian at y fenter ond oherwydd ein bod a chyfrifoldeb am arian cyhoeddus, dylid rhoi arian drwy'r cyfrwng grant (Adran 137). Byddai'r grant yn amodol ar bryniant y Marina a'i fod yn mynd yn ei flaen. Derbyn cais am grant sydd ar gyfer diben arbennig. Maint y grant yn ddibynnol ar fanylion y prosiect a manylion pendant o gostau. Opsiwn B i. Prynu ychydig o shares i ddangos cefnogaeth a chael y gallu i ddylanwadu ar unrhyw benderfyniad sydd ei wneud ynglŷn â rheolaeth y fenter. Penderfyniad yw gwneud yng nghyfarfod mis Chwefror 2024.	**CLERC**
1.4	Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Chwefror 2024. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.	
1.5	Ymgynghoriad newydd: Bill Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) - Penderfynwyd byddai'r Cyngor yn fodlon i Unllais Cymru anfon sylwadau ar ran y Cyngor.	
2.0	**DATGAN DIDDORDEB**	

	Dim	
3.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
3.1	Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol mis Tachwedd 2023 gan y Clerc a'u derbyniwyd.	**CLERC**
3.2	Cyflwynwyd cymhariaeth y gyllideb gyda gwariant gwirioneddol. Derbyniwyd.	
4.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI**	
4.1	Cadarnhawyd cofnodion mis Tachwedd yn rhai cywir.	**CLERC**
4.2	Gwersi Nofio Plas Menai - cadarnhawyd bod gwersi yn parhau fel rhan o'r gweithgareddau'r ganolfan dim gan gontractwyr allanol.	
4.3	Cyfrifiad a Chofrestru Diffibrilwyr Mynediad Cyhoeddus Unllais Cymru - bellach mae cadarnhad wedi ei dderbyn bod cyfrifoldeb am yr offer sydd yn yr ysgol gyda'r ysgol, maent yn gyfrifol am wirio'r offer a phrynu padiau fel bo'r gofyn.	
4.4	Cynllun Rheoli Traffig - dim dilyniant hyd yma.	
5.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
	Rhif Cais : C23/0927/20/LL Lleoliad : 13 Ffordd Hebog, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4QZ Bwriad : Gosod Pwmp Gwres Ffynhonnell Aer Monobloc ar wahân ynghyd â gwaith mewnol. **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
6.0	**CYLLID, CYFLOGAETH, PHOLISÏAU A GWEFAN**	
6.1	Gwaith ar y wefan yn parhau. Bydd angen gweithio tuag at gael polisi bioamrywiaeth yn fuan.	
7.0	**ASEDAU**	
	Dim i'w adrodd	
8.0	**LLWYBRAU CYHOEDDUS, LÔN LAS A PHRIFFYRDD**	
8.1	Dim i'w adrodd	**CLERC**
9.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
9.1	Bydd cyfarfod o'r Pwyllgor yn cael ei drefnu yn fuan.	**DW**
10.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
	Dim i'w adrodd.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 07:30 yn y r hwyr.	
Llofnod:		**Dyddiad: 16/1/24**